

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar yr 23ain Chwefror 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Janet Charlton, Neil Pringle, Dyfed Jones, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Dim ymddiheuriad
Datgan diddordeb –Dim datganiad

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 12fed Ionawr 2021

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clerc at y wybodaeth canlynol oddiwrth PCSO Gareth Roberts;

2 achlysur o drosedd niweidio.

Dim achlysuron o ymddwyn gwrthgymdeithasol.

Deallwyd mai ‘r trafferthion mwya’ oedd ymwelwyr yn teithio i’r ardal yn groes i ganllawiau cofid 19

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny’r afon o Bont-y-Pair

Nodwyd bod CADW wedi cytuno ymweld â’r safle pan fydd cyfyngiadau cofid wedi dod i ben, dywedodd y clerc hefyd bod ffurflen gais yn ceisio cyngor wedi ei hanfon i’r Parc Cenedlaethol.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan/ Darparu Gwasanaethau

Gan nodi amcan bris o £11,769 gan Scottish Power am gysylltiad ar gyfer Cae Llan, y clerc i wneud ymholiad tybed a fyddai Scottish Power yn barod i ganiatáu i’r Cyngor Cymuned ymgymryd y gwaith o agor trench. Cytunodd y Cyng E Roberts i geisio gwybodaeth pellach gan Mr Dylan Richards sydd yn gyflogedig gan y cwmni

[1.3] Cyngor BS Conwy Gwasanaethau Cynaliadwy

Penderfynwyd adolygu’r mater pan ddaw cyfyngiadau cofid i ben

[1.4] Pont y Mwynwyr

Cyfeiriodd y clerc at ddiweddariad gan Gyngor BS Conwy fod y bont yn barod i’w gosod. Y clerc i wneud ymholiad pellach tybed fydd y pyst corneli allan o gyrraedd dŵr lifogydd

[1.5] Camerâu Cylch Agos Pentre’ Du

Nodwyd nad oedd yn bosib i wneud trefniadau ar hyn o bryd o ganlyniad coronafirus.

[1.6] Dosbarthu Gwybodaeth yn Lleol

Gan nodi sylwadau rheolwr y wefan, y clerc i wneud ymholiad ynglŷn â chreu tudalen wybodaeth a’r wefan y Cyngor.

[1.7] Siop Climber a Rambler

Cytunodd y Cyng E Roberts i atgoffa’r Parc Cenedlaethol ynglŷn â’r cytundeb a wnaed pan fydd angen gosod hysbyseb “Ar Werth” ar flaen y siop.

[1.8] Ffordd y Rheithordy, Arwyddion Dim Parcio

Dywedodd y clerc bod Cyngor BS Conwy yn adolygu'r mater

[1.9] Gwasanaeth Sgip

Y clerc i anfon at CDCG i ofyn am i Betws-y-Coed gael ei gynnwys yn y cynllun.

[2] Safle Picnic Cae Llan

Deallwyd y bydd y gwaith wedi cwblhau yn y dyfodol agos.

[2.1] Goleuadau Stryd

Eglurodd y Cadeirydd bod y golau stryd ychwanegol ar fin y pentre' [Stryd y Felin] yn debygol o gael ei gwblhau ym mis Ebrill/Mai.

[2.2] Atgyweirio'r Neuadd Goffa

Penderfynwyd i aros am air pellach gan Gyngor BS Conwy ynglŷn â chyfrifoldeb am atgyweirio allanol y Neuadd Goffa.

[2.3] Erydiad ar Fin yr Afon Llugwy

Nodwyd fod yr erydiad yn fwy amlwg ar fin yr afon gyferbyn ar ffordd o faes parcio'r Royal Oak hyd at y Ganolfan Groeso. Y clerc i gysylltu mhellach gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

[2.4] Tai Fforddiadwy

Gan nodi fod materion wedi bwrw'n mlaen ynglun a phrynu'r tir a chyllideb ayb. Y Cyng E Roberts i wneud diweddariad yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

Y Brif Agenda

[2.5] Sedd Wag

Cyfeiriodd y clerc at gais am y sedd wag gan Ms Mari E Matthews, Olif, Plas Derwen, Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed

Penderfynwyd gwahodd Ms Matthews yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned

[2.6] Materion Cynllunio

[a] Dymchwel estyniad unllawr presennol ac adeiladu estyniad newydd tri llawr

Bryn Gwynt, Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed

[b] Newid polyn pren gydag un tebyg.

Gorsaf Darlledu, Coed Derw, Stryd-y-Felin, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[2.7] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer mis 1af Ionawr – 31ain Ionawr 2021

[b] Cymeradawyd y ffigyrau cymharol i'r Rhaeadr Ewynnol am y cyfnod 1af Dachwedd 2020 - 31ain Ionawr 2021

[c] Gan nodi'r arian wrth gefn penderfynwyd gosod presept o £3000.00 ar gyfer 2021/22

[d] Cymeradawyd y cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021 -2022, a baratowyd gan y clerc.

[2.8] Asesiad Risg

Cymeradawyd yr asesiad risg ar gyfer y Neuadd Goffa / Rhaeadr Ewynnol a baratowyd gan y clerc.

[2.9] Cilfan Ffordd A470 gyferbyn a'r rhaeadr wrth ymyl Pont Waterloo

Y clerc i gysylltu gyda Chyngor BS Conwy i geisio bin yn y gilfan.

[3] Caffi Rheilffordd Fach

Mynegwyd pryder ynlgun a chyflwr y caffi/cerbydau cludiant. Y clerc i anfon gair i geisio gwaith cynhaliaeth cyn ail agor busnesau yn dilyn y cyfnod clo.

[3.1] Llyfrgell Llanrwst

Nodwyd bod y llyfrgell yn ail leoli i Ganolfan Glasdir yn Llanrwst.

[3.2] Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Cyfeiriodd y clerc at ohebiaeth oddiwrth Ms Beca Roberts yn ceisio cwrdd ar Cyngor Cymuned. Penderfynwyd gohirio nes bydd y cyfnod clo ar ben. Yn y cyfamser y clerc i wneud ymholiad ynglun a grantiau sydd efallai ar gael.

[3.3] Nodwyd y wybodaeth canlynol

APCE Ymgynghoriad Cyhoeddus : Canllaw Cynllunio Atodol Drafft

Cadeirydd _____